
# Cyngor Adeiladau Hanesyddol CYMRU

# 47ain

ADRODDIAD BLYNYDDOL
2002–03



CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

# Cyngor Adeiladau Hanesyddol
# CYMRU

47ain

ADRODDIAD BLYNYDDOL

2002–03

Cyhoeddwyd gan
Gynulliad Cenedlaethol
Cymru yn unol ag
Adran 2(8) Deddf
Adeiladau Hanesyddol
a Henebion 1953,
fel y'i cymhwysir gan
adran 3 y Ddeddf honno
ac fel y'i diwygiwyd gan
adran 45 Deddf
Llywodraeth Cymru 1998

ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

ISBN 1 85760 194 7

Cyhoeddwyd gan Cadw

Clawr: Dolbelydr, ger Llanelwy, Sir Ddinbych ⓗ Barry Hamilton

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

Adeiladau'r Goron,
Parc Cathays,
Caerdydd CF10 3NQ

At
*Alun Pugh*
**Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg**

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r adroddiad hwn i chi gan Gyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru sy'n rhoi manylion ein gwaith ar gyfer y flwyddyn 2002–03.

Rydym unwaith eto wedi gwerthfawrogi'r cyfle i gynorthwyo Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy roi cyngor ar gadwraeth a gwaith atgyweirio adeiladau hanesyddol a materion perthnasol. Rydym wedi parhau i weld galw aruthrol am grantiau ar gyfer prosiectau cadwraethol a rhoddwyd ystyriaeth i 208 o geisiadau yn ystod y flwyddyn. Roedd wyth deg a thri o'r rhain yn llwyddiannus a chynigiwyd grant 'mewn egwyddor' iddynt. Unwaith eto, roedd ystod amrywiol o adeiladau. Roedd eglwysi canoloesol a thai gwledig gwych yn parhau i chwarae rhan amlwg yn y cynigion grant ond mae'n bleser gweld bod pensaernïaeth frodorol Gymreig wedi cael ei chyfran haeddiannol, ynghyd ag adeiladau sydd â lle arbennig o fewn hanes cymdeithasol Cymru, megis capeli a chreiriau ein gorffennol diwydiannol.

Cynhaliwyd adolygiad o'n swyddogaethau yn ystod y flwyddyn ac rydym yn falch bod y Cynulliad wedi cymeradwyo casgliad cyffredinol adroddiad yr adolygydd sef bod gwerth i'r Cyngor, ac y dylai, mewn egwyddor, barhau. Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon gan y Cynulliad o rôl y Cyngor, ac yn fwy cyffredinol, o bwysigrwydd adeiladau hanesyddol fel rhan hanfodol o dreftadaeth gyfoethog Cymru ac elfen bwysig o sawl un o flaenoriaethau ac amcanion allweddol y Cynulliad.

Mae'n arwyddocaol ein bod yn derbyn y mandad hwn i barhau â'n gwaith wrth i ni gyrraedd ein hannercanmlwyddiant. Cyflwynwyd y Cyngor ym 1953 o fewn deddfwriaeth at y diben penodol o ddarparu asesiad safonol i'r Llywodraeth drwy gyfrwng panel o arbenigwyr. Rydym o'r farn i'r Cyngor gyflawni'r rôl hon am bron i hanner can mlynedd — mae wedi gwrthsefyll treigl amser ond nid yw wedi sefyll yn ei unfan. Mae'r Cyngor yn parhau i esblygu, gan barhau'n effro i sialensau newydd ac ymateb i flaenoriaethau a gofynion cyfnewidiol. Mae hyn yn bwysicach byth wrth i Lywodraeth y Cynulliad lansio ymgynghoriad mawr ar bolisi a chyfeiriad strategol yr amgylchedd hanesyddol yng Nghymru i'r dyfodol.

Ynghlwm wrth y mandad i barhau ceir peth tristwch wrth i benodiadau ein haelodau presennol ddirwyn i ben ym mis Medi 2003. Nid yw'r Aelodau yn derbyn cyflog ond maent yn dangos ymroddiad arbennig i'w rôl wrth ddiogelu treftadaeth Cymru. Wrth edrych ymlaen yn hyderus at benodi aelodau newydd sydd ag arbenigeddau cydnabyddedig, mae gwybodaeth arbenigol y cyngor presennol wedi creu corff sy'n llawn doethineb a phrofiad a gobeithio yr ymunwch â mi wrth gyfleu ein diolch a'n dymuniadau gorau iddynt.

**Thomas Lloyd**
*Cadeirydd*

## Cynnwys


| | | *Tudalen* |
|---|---|---|
| Aelodau'r Cyngor | | 6 |
| Adolygiad o Fusnes y Flwyddyn | | |
| | • Ymweliadau | 7 |
| | • Ceisiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y flwyddyn | 12 |
| | • Astudiaethau achos | 15 |
| | • Materion o bwys | 20 |
| | • Costau'r Cyngor | 22 |
| | • Cydnabyddiaethau | 22 |
| Ychwanegiad A | Crynodeb o Grantiau | 23 |
| Ychwanegiad B | Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol | 25 |
| Ychwanegiad C | Grantiau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth | 39 |
| Ychwanegiad D | Rôl a chyfeiriad Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru ar gyfer y dyfodol | 42 |
| | • Atodiad A: Cylch Gorchwyl | 46 |
| | • Atodiad B: Meini Prawf | 47 |

## AELODAU'R CYNGOR

Cadeirydd:
Mr Thomas Lloyd MA FSA DL

Aelodau:
Yr Athro Prys Morgan MA DPhil FRHistS FSA DL
Dr Simon Unwin BSc BArch PhD RIBA
Mrs Sara Furse DipArch
Dr Eurwyn Wiliam MA PhD FSA
Miss Elizabeth Evans DipArch RIBA
Dr Roger Wools BArch PhD DipCons (Caerefrog) RIBA

Aseswyr Pensaernïol:
Mr Douglas Hogg RIBA ARIAS FSA (yr Alban)
Mr Robert Wall BArch BSc (Anrh)

Ysgrifennydd:
Mrs Jean Booker

Ysgrifennydd Cynorthwyol:
Mrs Claire Jenkins

Y dde: *Gardd y Cloestr yn Aberglasne (Ymddiriedolaeth Aberglasne).*



ADOLYGIAD O FUSNES Y FLWYDDYN

## Ymweliadau

Cynhaliodd y Cyngor bum cyfarfod ffurfiol yn ystod y flwyddyn yn Sir Gaerfyrddin, Sir y Fflint, Ceredigion, Sir Fynwy a Sain Ffagan, ger Caerdydd. Cynhaliwyd ymweliadau â sawl adeilad hanesyddol yn yr ardaloedd hynny.



Uchod:
*Aberglasne: y tŷ a'r ardd.*

Roeddem yn falch o weld y cynnydd pellach a wnaed yn y gwaith o adfer y tŷ hanesyddol a'r gerddi yn Aberglasne yn Sir Gaerfyrddin gan Ymddiriedolaeth Adfer Aberglasne. Mae hanes Aberglasne yn parhau i fod yn annelwig ac yn destun ymchwil, er y gwyddom y bu annedd bwysig yn sefyll oddeutu'r un fan ag y saif Aberglasne nawr mor bell yn ôl â'r 1470au. Ni ddaeth yr eiddo i gael ei adnabod fel Aberglasne tan ganol yr ail ganrif ar bymtheg pan ddaeth y tŷ a adeiladwyd gan Esgob Rudd a'i fab Syr Rice i gael ei adnabod fel un o'r mwyaf yn Sir Gaerfyrddin. Gwerthwyd y tŷ i deulu gwahanol yn ystod pob un o'r pedair canrif ddiwethaf, ac wrth i dynged pob llinach newydd ffynnu a phylu, dechreuodd patrwm anwadal o gyfoeth ac anffawd, gyda'r tŷ mewn cyflwr ysblennydd am gyfnod ac yna'n dirywio am gyfnod. Erbyn 1995, pan ddaeth Aberglasne i ddwylo'r Ymddiriedolaeth, roedd y tŷ yn adfail a chwyn yn tagu'r tir. Bu'r newid ers hynny yn syfrdanol; mae'r tŷ wrthi'n cael ei adfer a'r gerddi'n cael eu hadfer a'u hail-blannu.

Roedd y Cyngor wedi argymell grant ar gyfer sawl agwedd ar y prosiect yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys yr adardy, bwthyn y llyn, y porthdy, llwybr y clwysty a muriau'r gerddi a'r tŷ ei hun. Rydym yn falch iawn o weld bod y gwaith a gwblhawyd hyd yma yn waith o'r radd flaenaf, gan osod y safon ar gyfer y gwaith ar weddill y tŷ.

Cafwyd ymweliad diddorol ym mis Medi â Thŷ Llanerchaeron, Ceredigion, sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ers 1989 pan y'i rhoddwyd iddynt gan Mr John Powell Ponsonby Lewes. Mae pwysigrwydd mawr i ystad Llanerchaeron yng nghyd-destun treftadaeth adeiledig Cymru. Mae'n enghraifft brin a dilychwin o breswylfa'r bonedd yng Nghymru a arferai fod mor gyffredin ond sydd bellach yn brin iawn, gyda sawl adeilad atodol yn rhan o'r ystad.

Y dde: *Tŷ Llanerchaeron (Llyfrgell Ffotograffau'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Andrew Butler).*

Mae'r fila, un o weithiau prin y pensaer John Nash, sy'n dal i sefyll yng Nghymru, yn adeilad rhestredig Gradd I ac mae adeiladau eraill ar yr ystad yn adeiladau rhestredig Gradd II*. Roeddem yn falch o argymell sawl grant dros y blynyddoedd ar gyfer adfer y fila a'r iard wasanaethu ddymunol a chreodd y gwaith gorffenedig argraff fawr arnom. Cafodd y tŷ ei agor yn swyddogol i'r cyhoedd gan Brif Weinidog y Cynulliad ychydig fisoedd cyn ein hymweliad a chawsom ar ddeall i nifer fawr o bobl ymweld â'r tŷ. Roedd yn galonogol iawn i ni weld bod mynediad llawn i'r cyhoedd a bod diddordeb brwd mewn adeiladau o bwysigrwydd o'r fath o fewn amgylchedd hanesyddol Cymru.

Ar begwn arall yr ystod o fathau o adeiladau, roedd yn bleser gennym ymweld â'r bwthyn brodorol o'r enw Ffynnon Oer yn Temple Bar, Ceredigion, a ymddangosodd yn ein hadroddiad blynyddol ar gyfer 2001–02. Arferai'r adeilad fod yn dri bwthyn, gyda'r cynharaf ohonynt yn dyddio o ganol y ddeunawfed ganrif. Roeddem yn falch iawn o weld yr adeilad — a'i groglofftydd — yn dal i gael ei ddefnyddio fel preswylfan yn sgîl gwaith adfer gofalus a chywir.

Ymwelasom â Sir y Fflint ym mis Gorffennaf a nodwyd y byddai'r atgyweiriadau i Neuadd Trimle yn Nant y Ffridd ger Brymbo yn sicrhau dyfodol yr adeilad pwysig hwn ar unwaith ac yn rhoi cyfle i'r perchennog ystyried pa ddefnydd fyddai iddo ar gyfer y dyfodol. Cafodd y tŷ, a gaiff ei ddefnyddio bellach fel storfa amaethyddol, ei godi'n wreiddiol fel tŷ bonedd ar ddiwedd y 1630au gan Frenhinwr nodedig a oedd yn gwasanaethu yn y garsiwn yn Ninbych. Mae'n fwyaf adnabyddus am ei gynllun canolog yn arddull y Dadeni a'i ffenestriad a nodweddion mewnol o'r ail ganrif ar bymtheg sydd fwy neu lai wedi aros yn ddigyfnewid. Roeddem yn falch fod yr awdurdod lleol wedi dwyn ein sylw at y tŷ ac wedi darbwyllo'r perchennog i wneud y gwaith atgyweirio gyda'r cymorth grant yr oedd yn bleser gennym ei argymell. Mae'r partneriaethau y gellir eu creu rhwng swyddogion cadwraeth awdurdodau lleol a ninnau mewn achosion fel hyn o werth mawr.


Ymwelasom â thair tref sy'n derbyn arian drwy'r Fenter Treftadaeth Trefluniau (THI) — sef Llanymddyfri, Llangadog a Threffynnon. Nod y Mentrau hyn yw ysgogi adfywiad economaidd drwy gadwraeth adeiladau hanesyddol a gweithredu drwy sawl partner cyllido, gan gynnwys Cronfa Treftadaeth y Loteri, awdurdodau lleol, Awdurdod



Datblygu Cymru a Cadw. Roeddem yn falch o weld bod y trefi hyn wedi cael eu cymeradwyo ar gyfer y prosiect THI gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ac yn falch o weld y camau yn cael eu cymryd tuag at adfer sawl adeilad nodedig a phwysig o fewn y trefluniau hanesyddol hyn o ganlyniad i'r fenter.

Fodd bynnag, roedd gennym bryderon nad oedd y manteision adfywio economaidd a ragwelodd y cynllun yn ymddangos fel pe baent yn dwyn ffrwyth. Er bod awdurdodau lleol yn llwyddo i adfer ac ailadeiladu adeiladau targed y THI, cawsom yr argraff nad oeddent mor llwyddiannus wrth ddenu busnesau i ymsefydlu yn yr adeiladau adferedig hynny. Y bygythiad yw y bydd adeiladau nodedig sydd wedi eu hadfer yn aros yn wag a'n pryder oedd y gallai manteision adfywio economaidd y cynllun a chynaliadwyedd hirdymor ein trefluniau hanesyddol gael eu peryglu.

Roeddem ar ddeall y bu'n rhaid i awdurdodau lleol nodi pob un o'r materion hyn a mynd i'r afael â hwy fel rhan o broses gymeradwyo Cronfa Treftadaeth y Loteri er mwyn cael eu cynnwys yn y cynllun. Fodd bynnag, ymddengys na châi rhai o'r materion hyn eu rhoi ar waith unwaith y gweithredwyd y cynlluniau felly codwyd y mater gyda Chronfa Treftadaeth y Loteri fel un y gallai eu swyddogion monitro ei ystyried ymhellach. Er hynny, estynnwn ein dymuniadau gorau am bob llwyddiant i'r trefi hyn ac i eraill a gaiff eu cymeradwyo gan Gronfa Treftadaeth y Loteri ar gyfer mentrau treftadaeth trefluniol. Mae llawer o botensial i fentrau llwyddiannus a chydnabyddwn ymdrechion glew swyddogion yr awdurdodau lleol wrth lunio'r ceisiadau.



Uchod: *Capel Glendower Street mewn cyflwr adfeiliedig (Anthony Jones).*

Fe'n trawyd gan y trawsnewid i gyn gapel yr Annibynwyr yn Glendower Street, Trefynwy, at ddefnydd preswyl. Capel Fictoraidd cynnar oedd hwn yn yr arddul glasurol gydag wyneb tri phorth a dau biler maint llawn bob ochr. Fe'i adeiladwyd yn ystod y 1840au a chafodd ei gau ar ôl ei wasanaeth olaf yn 1953. Daeth yr adeilad gerbron y Cyngor ym mis Ebrill 2000 a chafodd ei asesu i fod o ddiddordeb eithriadol er gwaethaf ei gyflwr gwael ac roeddem yn falch o argymell cymorth grant. Dair blynedd yn ddiweddarach, mae'r hen gapel yn cael ei ddefnyddio fel cartref teuluol. Mae'r gwaith ar yr ochr allanol adfeiliedig wedi gwella ymddangosiad yr adeilad yn fawr yn ogystal ag edrychiad y stryd mewn ardal gadwraeth y mae'n rhan fawr ohoni. Caiff uchder mewnol gwreiddiol y capel ei gadw ac mae'r oriel wedi cael ei hailffurfio yn

sgriniau pren cerfiedig sy'n gartref i gypyrddau ar gyfer ardal fyw y teulu. Roedd y Cyngor wrth ei fodd o weld canlyniad y gwaith a wnaed drwy'r cymorth grant. Mae'n amlwg bod manteision i'w cael o gadw capeli a'u trawsnewid yn greadigol fel hyn. Hoffem nodi rhybudd fodd bynnag y dylai unrhyw waith trawsnewid gael ei wneud mewn modd sensitif ac yn unol â nodweddion hanfodol yr adeilad. Argymhellwn lyfryn Cadw *Capeli yng Nghymru* sy'n rhoi arweiniad ar addasiadau derbyniol.







Top: *Adferwyd y nodweddion gwreiddiol.*

Uchod: *Addaswyd y tu mewn at ddefnydd domestig.*

Chwith: *Y capel ar ôl ei adfer.*

## Ceisiadau a gafodd eu hystyried yn ystod y flwyddyn

Rhan helaeth o waith y Cyngor oedd ystyried, yn ôl yr arfer, geisiadau grant unigol a chynghori Cadw ar rinweddau'r eiddo a oedd yn cael eu hystyried. Rhoddodd y Cyngor gyngor ar yr adeiladau a oedd â rhinweddau pensaernïol neu hanesyddol nodweddiadol yn perthyn iddynt — sef y gofynion deddfwriaethol ar gyfer grantiau o dan Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953. Gwnaethom argymhellion hefyd ar y prosiectau a allai wneud cyfraniad sylweddol i wella a chadw ardaloedd cadwraeth at ddibenion grant ardal cadwraeth o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990.

Rhoddodd y Cyngor ystyriaeth i gyfanswm o 199 o geisiadau. Y grant uchaf a gafodd ei gynnig oedd £119,411 ar gyfer rhaglen gynhwysfawr o waith atgyweirio yn Eglwys Priordy'r Santes Fair, Brynbuga, Sir Fynwy a'r isaf oedd £1,840 ar gyfer atgyweirio gwaith maen yn Eglwys Aelhaiarn Sant, Cegidfa, Powys.

Gwnaed wyth deg a thri o gynigion grant 'mewn egwyddor' yn ystod y flwyddyn, ond am resymau gwahanol ni fydd yr holl gynlluniau hyn yn mynd yn eu blaenau a bydd cyfanswm gwirioneddol y grant yn amrywio yng ngoleuni'r tendrau a dderbyniwyd. Ond mae'r cynigion grant a nodir isod yn adlewyrchu argymhellion y Cyngor.

| **Ceisiadau am grantiau 2002–2003** | **Nifer** | **Gwerth (£)** |
|---|---|---|
| Cyfanswm y ceisiadau | 208 | |
| Cynigion 'mewn egwyddor' | 83 | 2,041,046 |
| Adeiladau eithriadol — seciwlar | 20 | 483,124 |
| Adeiladau eithriadol — eglwysig | 27 | 1,066,792 |
| Grant ardal gadwraeth | 36 | 491,130 |

Mae Ychwanegiadau A a B yn rhoi manylion cryno am yr eiddo a gafodd gynnig grantiau 'mewn egwyddor' yn ystod y flwyddyn.

Cyflwynwyd ceisiadau ar gyfer pob math o adeiladau gan unigolion preifat, sefydliadau elusennol a sefydliadau eraill ac awdurdodau lleol. Nodir ceisiadau neilltuol y flwyddyn yn yr astudiaethau achos canlynol:



Chwith: *Traphont Hengoed, Maes y cymmer.*




## Astudiaethau achos

### Tŷ Bronna, Caerdydd

Adeilad rhestredig Gradd II* ar gyrion Caerdydd yw Tŷ Bronna. Fe'i adeiladwyd yn 1903–06 ar gyfer Hastings Watson a dyma'r unig dŷ yng Nghymru i gael ei gynllunio gan C. F. A. Voysey, y pensaer Prydeinig pwysig a dylanwadol. Mae cynlluniau gwreiddiol y pensaer wedi goroesi. Mae rhai gwahaniaethau rhwng y rhain a'r adeilad gorffenedig. Mae tri llawr i'r tŷ ac mae wedi ei orchuddio â rendrad plastr garw gyda gwaith carreg nadd yn amgylchynu ffenestri casment dur cywrain. Addaswyd y tŷ i'w ddefnyddio fel ysbyty yng nghanol yr ugeinfed ganrif ond pan ddaeth gerbron y Cyngor yn 1998 roedd yn wag, yn adfeilio ac wedi dioddef lladrad a fandaliaeth. Wedi hynny, cafodd ei ddifrodi gan dân ond y farn oedd ei bod yn dal yn bosibl adnewyddu ac adfer yr adeilad.

Gan gydnabod ei bwysigrwydd, argymhellodd y Cyngor grant ar gyfer gwaith brys i ddiogelu'r adeilad rhag yr elfennau tra'n paratoi cynllun adfer. Galluogodd grant pellach i'r perchenogion, Cymdeithas Tai Cadwyn, i'r adeilad gael ei adnewyddu. Mae'r gwaith wedi cael ei gwblhau erbyn hyn a'r canlyniad yw adeilad pwysig yn cael ei ddefnyddio unwaith eto at ddibenion preswyl.





Top: *Difrodwyd y tŷ gan dân (Cymdeithas Tai Cadwyn).*

Uchod: *Y gwaith ailadeiladu yn mynd rhagddo (Cymdeithas Tai Cadwyn).*

Chwith: *Tŷ Bronna ar ôl ei adfer.*



CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

## Dolbelydr, Sir Ddinbych

Lleolir Dolbelydr mewn lleoliad tawel ac anghysbell ger dinas Llanelwy. Mae'n debyg y bu ei safle gwastad, sydd bellach ar ochr dde afon Elwy, yn wely'r afon ar un adeg. Adeiladwyd y tŷ ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg ac roedd yn bosibl byw ynddo tan ddechrau'r 1900, pan gaed mynediad iddo dros hen bont ar draws yr afon. Mae'n adeilad rhestredig gradd II* oherwydd ei ddiddordeb hanesyddol arbennig fel cartref y gramadegydd a'r ffisegydd o oes Elizabeth, Henry Salesbury, ac oherwydd ei ddiddordeb pensaernïol arbennig fel enghraifft wych o dŷ bonedd aml-lawr â simnai yn y pen. Yn y tŷ hwn yr ysgrifennodd Henry Salesbury ei *Grammatica Britannia*, sef traethawd ar ramadeg Cymraeg a gyhoeddwyd yn 1593. Tua'r un cyfnod cynhyrchodd eiriadur Cymraeg Lladin hefyd. Roedd yn gweithio ar ei eiriadur mawr *Geirfa'r Iaith Gymraeg* pan fu farw yn 1637. Mae cynllun a manylion yr adeilad yn awgrymu tŷ bonedd gwledig o statws cymedrol. Mae'n gyfforddus a chadarn ond yn ddirodres.

Wedi canrif o esgeulustod heb neb yn byw ynddo, dim ond prif gragen y tŷ a oroesai, ynghyd â rhai o drawstiau gwreiddiol y to a distiau'r llawr a sawl postyn ffenestr derw gwreiddiol. Er gwaethaf pryderon, roedd trafferthion mynediad a pherchenogaeth wedi rhwystro Dolbelydr rhag cael ei achub nes y daeth yr adeilad i berchenogaeth y Landmark Trust. Daeth gerbron y Cyngor gyntaf yn 1998 pan gynigiodd yr Ymddiriedolaeth gais am grant ar gyfer gwaith brys er mwyn rhwystro'r adeilad rhag dymchwel ymhellach ac amddiffyn y strwythur rhag y gwynt a'r tywydd garw drwy godi to dros dro. Cadarnhaodd y Cyngor fod yr adeilad yn sicr o ddiddordeb eithriadol ac argymhellodd gymorth grant. Dilynwyd y cais cyntaf hwn gan un am atgyweiriadau fel rhan o waith cadw ac adfer yr adeilad.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd y gwaith adfer bron wedi ei gwblhau a chafodd yr adeilad ei drawsnewid yn syfrdanol. Hoffem gymeradwyo'r Landmark Trust am ei ymagwedd sensitif i'r adeilad bregus hwn, sydd wedi arwain at y posibilrwydd y caiff ei ddefnyddio unwaith yn rhagor mewn modd adeiladol yn y dyfodol agos. Bydd yr adeilad a'i leoliad ardderchog yn ysbrydoliaeth i breswylwyr y dyfodol ac yn enghraifft addysgiadol o waith atgyweirio cadwraethol o safon uchel.





Top: *Cadwyd y trawstiau gwreiddiol lle y bo'n bosibl (Landmark Trust).*

Uchod: *Trawstiau'r to wedi'u cwblhau (Landmark Trust).*

Chwith: *Un o drawstiau'r to yn cael ei osod yn ei le (Landmark Trust).*




## Yr Hen Eglwys, Manordeifi, Sir Benfro

Lleolir yr Hen Eglwys ym Manordeifi ychydig uwchben gorlifdiroedd afon Teifi, ger Pont Llechryd, Sir Benfro. Mae'r sylfeini cynharaf yn dyddio o ddechrau'r Oesoedd Canol ac o bosibl yn dyddio o'r chweched ganrif ac yn wreiddiol fe'i cysegrwyd i Lawddog Sant. Y farn yw bod yr eglwys bresennol yn dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg neu'r bedwaredd ganrif ar ddeg, gydag addasiadau wedi eu gwneud yn ystod y ddeunawfed ganrif. Cafodd ei gadael yn wag fel prif eglwys y plwyf yn 1899, ei hatgyweirio yn 1905 ac eto rhwng 1948 a 1973. Mae'r adeilad yn rhestredig gradd II* oherwydd ei nodweddion eithriadol, er ei fod yn ddinod o ran cymeriad heb fawr o nodweddion Fictoraidd yn perthyn iddo. Mae ganddo sawl nodwedd o bwys, gan gynnwys cangell ddiferol, drws isel i'r offeiriad gyda meini bwa crymion, sawl cofeb mur diddorol, y rhan fwyaf ohonynt yn dyddio o'r ddeunawfed ganrif, a bedyddfaen sy'n tarddu o'r cyfnod Normanaidd. Mae sawl beddrod teuluol mawr gyda rheiliau addurnedig o'i hamgylch yn y fynwent. Mae cofeb deuluol anarferol gyda cholofnau pren a phedementau, wedi ei leoli mewn cilfach a adeiladwyd yn arbennig ar ochr ddeheuol mynedfa'r cyntedd.

Pan ddaeth yr adeilad gerbron y Cyngor gyntaf yn 2000, roedd y gynulleidfa wedi edwino i uchafswm o ddeuddeg a dim ond unwaith y mis y cynhaliwyd oedfaon. Roedd yr Eglwys yng Nghymru yn ystyried yr adeilad datgan yn segur ac awgrymwyd y gellid ei freinio i Gyfeillion yr Eglwysi Digyfaill er mwyn ei ddiogelu. Mae'r Cyfeillion yn sefydliad gwirfoddol a sefydlwyd i ofalu am yr eglwysi segur gorau yng Nghymru a Lloegr — mae ganddo tua 12 adeilad yng Nghymru na chânt eu defnyddio bellach i addoli.

Ymwelodd aelodau'r Cyngor yn ystod 2000 i asesu a oedd adeilad Manordeifi o safon a fyddai'n gymwys i'w freinio i ofal y cyfeillion a daethant i'r casgliad fod swyn a symlrwydd yr adeilad a'i fynwent, ynghyd a'r ddiddordeb hanesyddol sylweddol, yn ei osod yn y categori eithriadol, ac felly yn gymwys i'w freinio. Mae'r adeilad bellach yng ngofal y Cyfeillion a chafodd y gwaith atgyweirio drwy gymorth grant gan Cadw a'r Eglwys yng Nghymru, ei gwblhau'n effeithiol iawn. Heb gymorth, byddai adeilad hanesyddol gwych o'r fath wedi bod mewn perygl o fynd yn adfail a chael ei golli.



Uchod: *Eglwys Manordeifi.*


Chwith: *Corau yng nghorff yr eglwys.*

## Materion o bwys

### Y CYNLLUN CYHOEDDIADAU

Mae'r Cyngor bob amser wedi ceisio sicrhau bod ein hystyriaeth o grantiau yn deg ac yn agored ac ers sawl blwyddyn rydym wedi cyhoeddi'r meini prawf a ddefnyddiwn wrth asesu ceisiadau am grant. Wrth ystyried gofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, lluniwyd cynllun cyhoeddiadau, a gyflwynasom i'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ystod y flwyddyn. Rydym yn falch bod y Comisiynydd wedi rhoi ei gymeradwyaeth heb addasiadau ac rydym bellach yn gweithredu yn unol â'r cynllun. Mae agendâu a chofnodion ein cyfarfodydd ar gael ar ffurf copi papur ac ar y we, ac eithrio pan fydd y dogfennau hynny yn ei gwneud yn bosibl i adnabod ymgeiswyr unigol am grantiau. Fel ag o'r blaen, mae'r meini prawf a ddefnyddiwn a'r adroddiadau blynyddol ar gael i'r cyhoedd hefyd.

### ADEILADAU GWLEDIG




Uchod: *Anheddau Bychain Gwledig yng Nghymru.*

Dros ddegawdau ei fodolaeth esblygodd dealltwriaeth y Cyngor o'r hyn sy'n cynrychioli hanfodion amgylchedd hanesyddol y wlad, gyda mwy o bwyslais yn ddiweddar ar bwysigrwydd adeiladau gwledig a esgeuluswyd. Mae'r hen farn nad oedd gan Gymru ei phensaernïaeth draddodiadol ei hun wedi cael ei disodli gan werthfawrogiad o enghreifftiau rhyfeddol o saernïaeth anghofiedig a thechnegau strwythurol a drosglwyddwyd o un genhedlaeth i'r llall dros y canrifoedd. Bu'r Cyngor yn falch o argymell grant ar gyfer sawl un o'r cyfryw adeiladau fel enghreifftiau prin o draddodiadau adeiladu. Roedd ein hadroddiad ar gyfer 2001–02 yn cynnwys sawl enghraifft a hefyd yn cynnwys ein hymweliad â Phen Llŷn lle y gwelsom sawl bwthyn gan ystyried eu pwysigrwydd o fewn hanes cymdeithasol Cymru. Roeddem o'r farn bod eu parhad o arwyddocâd arbennig ac argymhellwyd i Cadw y dylai hyn gael ei gofnodi, o bosibl mewn cyhoeddiad. Felly roeddem yn falch bod Cadw wedi ymateb i'n cyngor ac wedi lansio llyfryn ym mis Mawrth ar ofal a chadwraeth anheddau bach gwledig. Rydym yn llongyfarch Cadw ar gyflwyniad a chynnwys yr arweiniad hwn a gobeithio y bydd yn gweithredu fel modd o dynnu sylw at yr adeiladau dinod ond hanesyddol bwysig hyn ac y bydd o gymorth i'w diogelu.

## ADOLYGIAD POLISI TREFTADAETH

Roedd yr aelodau'n falch o gymryd rhan yn y gynhadledd ar amgylchedd hanesyddol Cymru a gafodd ei galw a'i harwain gan Weinidog Llywodraeth y Cynulliad dros yr Amgylchedd yng Nghwmaman ym mis Gorffennaf. Rhoddodd y gynhadledd y pwyslais cywir ar yr amgylchedd hanesyddol, nid fel cysyniad cul ond ag iddo sawl elfen. Gwnaeth y gynhadledd yn amlwg mai ased pwysig yw'r amgylchedd hanesyddol ac un y dylid ei werthfawrogi, o ystyried y cyfraniadau y gall eu gwneud i amcanion polisi ehangach gan gynnwys adfywio economaidd a chymdeithasol, datblygiad cynaliadwy a datblygiad addysgol a diwylliannol. Croesawyd menter y Gweinidog i gynnal momentwm y gynhadledd a chomisiynu adolygiad o'r amgylchedd hanesyddol. Roeddem yn falch o allu helpu i lywio adroddiad gan grŵp bach o arbenigwyr, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth gan y Gweinidog fel papur ymgynghori ar ystod eang o ddiddordebau. Rydym yn croesawu'r ymgynghoriad hwn yn fawr fel ffordd o helpu i lywio polisi a chyfeiriad strategol y dyfodol yn ogystal â chodi proffil yr amgylchedd hanesyddol. Edrychwn ymlaen at gynnig sylwadau a chwarae rhan bellach yn y broses. Gobeithiwn y bydd eraill sy'n rhannu'r un farn, sy'n parchu ein treftadaeth ac sydd am sicrhau y caiff ei diogelu, hefyd yn cynnig eu sylwadau.



Uchod: *Adolygiad o Amgylchedd Hanesyddol Cymru*

## DIRPRWYO CYDSYNIAD ADEILAD RHESTREDIG

Y llynedd, roedd yn bleser gennym gyfrannu i ymgynghoriad Cadw ar ddirprwyo rhai ceisiadau am gydsyniad adeilad rhestredig Gradd II* i awdurdodau lleol. Fe'i gwnaed yn glir gennym i Cadw mai dim ond lle bydd awdurdod lleol yn gallu dangos yn glir bod ganddo'r sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol o ran cadwraeth y dylid ystyried dirprwyo. Roeddem yn falch bod Cadw yn derbyn y pwyntiau hyn a bod y gwahoddiad i awdurdodau lleol wneud cais am y ddirprwyaeth yn ei gwneud yn glir mai dim ond ar sail sgiliau cadwraeth da a chadarn o fewn yr awdurdod y gellid cyflawni hyn. Credwn y gallai hyn weithredu fel dull pwerus ar gyfer cadwraeth adeiladau hanesyddol ar lefel leol ac yn un y gallai awdurdodau lleol anelu ato. Rydym wedi bod yn falch o nodi y cadarnhawyd ceisiadau gan ddau awdurdod lleol hyd yn hyn ac mae'n debygol y caiff mwy eu cyflwyno.

## Costau'r Cyngor Adeiladau Hanesyddol

Caiff ysgrifenyddiaeth y Cyngor, sy'n darparu cymorth a chyngor proffesiynol, ei darparu gan Cadw. Roedd costau'r Cyngor ar gyfer y flwyddyn fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyflog y cadeirydd | £5,712 |
| Treuliau cyfarfodydd | £8,335 |
| Amcan o gostau Cadw wrth ddarparu cymorth i'r Cyngor | £16,500 |
| **Cyfanswm** | £30,547 |

## Cydnabyddiaethau

Roedd y Cyngor yn ddiolchgar am y cymorth a gafodd gan ei Ysgrifenyddiaeth a'r Aseswyr Pensaernïol o fewn Cadw, ac i'r cyrff a'r unigolion eraill hynny a gyflwynodd sylwadau manwl a chyngor yn ystod y flwyddyn.

## YCHWANEGIAD A

# Crynodeb o'r Grantiau

### 1. Grantiau ar gyfer Adeiladau Seciwlar Eithriadol

| Ceisiadau a dderbyniwyd | 2002–03 |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 89 |
| Ceisiadau am gynnydd | 24 |
| Cyfanswm | 113 |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 20[a] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [b] | £620,464[c] |

(a) Yn ogystal, cymeradwywyd 24 cais am gynnydd yn ystod y flwyddyn.
(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau a ganslwyd, sef cyfanswm o £320,336 yn ystod 2002–03.
(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, sef cyfanswm o £137,340 yn ystod 2002–03.

### 2. Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol a ddefnyddir ar gyfer Addoli

| Ceisiadau a dderbyniwyd | 2002–03 |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 53 |
| Ceisiadau am gynnydd | 14 |
| Cyfanswm | 67 |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 27[a] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [b] | £1,131,786[c] |

(a) Yn ogystal, cymeradwywyd 14 o geisiadau am gynnydd yn ystod y flwyddyn.
(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau a ganslwyd, sef cyfanswm o £103,500 yn ystod 2002–03.
(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, sef cyfanswm o £64,994 yn ystod 2002–03.

### 3. Grantiau ar gyfer Cynlluniau mewn Ardaloedd Cadwraeth

| Ceisiadau a dderbyniwyd | 2002–03 |
|---|---|
| Ceisiadau newydd | 66 |
| Ceisiadau am gynnydd | 10 |
| Cyfanswm | 76 |
| Nifer y grantiau a gymeradwywyd gan y Cynulliad Cenedlaethol | 36[a] |
| Gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd [b] | £559,877[c] |

(a) Yn ogystal, cymeradwywyd 10 o geisiadau am gynnydd yn ystod y flwyddyn.
(b) Nid yw gwerth y grantiau a argymhellwyd ac a gymeradwywyd yn cymryd i ystyriaeth werth y grantiau a ganslwyd, sef cyfanswm o £187,500 yn ystod 2002–03.
(c) Mae'r ffigur hwn yn cynnwys gwerth y grantiau a gynyddwyd, sef cyfanswm o £68,747 yn ystod 2002–03.


Gambarini's
ITALIAN RESTAURANT
The New
Bella Mamma's

Chwith: *Adeiladau ym mhen isaf Dock Street, Casnewydd a adferwyd fel rhan o fenter Treftadaeth Trefluniau (Cyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd).*

YCHWANEGIAD B

## Grantiau ar gyfer Adeiladau Eithriadol

**Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953, Adran 4**

Mae'r canlynol yn rhestr o adeiladau yr argymhellwyd y dylid rhoi grant iddynt yn ystod y cyfnod 1 Ebrill 2002 i 31 Mawrth 2003. Mae'n bosibl na chafodd y grant ei dalu, neu ei fod ond wedi'i dalu'n rhannol os nad aeth y cynllun yn ei flaen.

Mae pob cynnig grant ar gyfer adeiladau eithriadol yn destun amod sy'n gofyn am fynediad i'r cyhoedd. Gellir cael manylion trefniadau mynediad ar wefan Cadw: http://www.cadw.wales.gov.uk

## Pen-y-bont ar Ogwr

**Tŷ Merthyr Mawr, Merthyr Mawr, Pen-y-bont ar Ogwr**

Tŷ gwledig o ddiwedd y cyfnod Sioraidd sydd wedi ei gadw'n dda, gyda manylion mewnol ac allanol da a chanolbwynt gwaith ailadeiladu Ystâd Merthyr Mawr ar ôl 1804. Grant o £48,400 ar gyfer gwaith atgyweirio'r to.

**Eglwys Dewi Sant, Betws**

Mae'r eglwys hon yn adeilad rhestredig Gradd I o ddechrau'r oesoedd canol a llawer o'i gwneuthuriad wedi goroesi o'r cyfnod hwnnw. Yr agwedd bwysicaf arni yw'r gwaith coed a'r cwt clychau gorllewinol. Cynnig grant o £25,000 ar gyfer atgyweirio gwaith maen, pren a lloriau.

**Eglwys Sant Ioan Fedyddiwr, Y Drenewydd yn Notais, Porthcawl**

Eglwys bwysig ganoloesol sy'n adeilad rhestredig Gradd I nad yw wedi cael ei hadfer rhyw lawer ond sydd â llawer o'i gwneuthuriad gwreiddiol wedi goroesi, gan gynnwys pulpud carreg cerfiedig canoloesol. Lleolir yr eglwys yng nghanol pentref y Drenewydd ond yn yr 16eg ganrif, pan oedd y Drenewydd yn borthladd bach, byddai'r eglwys wedi sefyll yn amlwg wrth y fynedfa i'r pentref o'r môr. Grant o £47,386 ar gyfer atgyweirio'r to, atgyweirio'r systemau gwaredu dŵr glaw.

YCHWANEGIAD B

## Caerffili

**Traphont Hengoed, Maesycymmer, Hengoed**
Fel nodwedd dirluniol drawiadol gydag un ar bymtheg o fwâu yn ymestyn dros bentrefi Hengoed a Maesycymmer, traphont Hengoed yw un o'r traphontydd hynaf o'i bath sy'n dal i sefyll. Fe'i hadeiladwyd yn 1857 ar gyfer rheilffordd Casnewydd, Y Fenni a Henffordd, a ddaeth yn rhan o reilffordd y Great Western yn ddiweddarach, a bu'r draphont yn gyfrifol am agor ardal lofaol a oedd yn ehangu a ffurfio rhan o reilffordd a oedd yn croesi ar draws bron bob cwm rhwng afon Llwyd ac afon Cynon yn y pen draw. Grant o £75,000 ar gyfer gwaith atgyweirio gwaith maen hanfodol i adeiledd y strwythur a gaiff ei ddefnyddio bellach fel rhan o lwybr cerdded a beicio hir — y Llwybr Celtaidd — sy'n ffurfio rhan o'r Rhwydwaith Beicio cenedlaethol.

## Caerdydd

**Ysgol Gynradd Lansdowne, Y Rhath**
Yn enghraifft wych na chafodd ei haddasu o gwbl bron o ysgol fwrdd o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd Ysgol Lansdowne yn ystod 1896–8. Er mai nodweddion oes Elizabeth sydd i'r tu allan, Clasurol yw'r nodweddion mewnol, gyda sawl nodwedd wreiddiol wedi goroesi. Grant o £24,000 ar gyfer ffenestri newydd gyda chopïau o'r cynlluniau gwreiddiol.

**Ysgol Gynradd Parc y Rhath, Y Rhath, Caerdydd**
Yn ysgol fwrdd o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, adeiladwyd Ysgol Parc y Rhath yn arddull cyfnod y Frenhines Anne ac mae llawer o'r nodweddion gwreiddiol trawiadol yn parhau. Cynnig grant o £24,000 ar gyfer ffenestri newydd gyda chopïau o'r rhai Fictoraidd gwreiddiol.

YCHWANEGIAD B

## Sir Gaerfyrddin

**Fferm Tyrheol, Felinfoel, Llanelli**
Mae'n bosibl bod gwreiddiau cynharach i'r adeilad hwn er ei fod wedi ei ddyddio i ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Mae'n enghraifft brin o adeilad gwledig traddodiadol syml ac mae wedi cadw ei nodweddion brodorol. Grant o £32,000 ar gyfer gwaith adfer.

**Eglwys y Drindod Sanctaidd, Pontargothi**
Mae gan yr eglwys hon o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gynllun addurniadol cywrain sydd wedi ei gadw'n dda iawn, yn arbennig yn y gangell. Cynnig grant o £35,000 ar gyfer adfer y nenfydau paentiedig a phaneli'r muriau.

**Eglwys Crist, Twyn, Rhydaman**
Mae Eglwys Crist yn enghraifft brin ac anarferol yn ne Cymru o eglwys y Comisiynwyr o ddechrau'r 1840au yn yr arddull Gothig ac mae pwysigrwydd hanesyddol iddi fel enghraifft o'i math sydd wedi cael ei chadw'n arbennig o dda. Cynnig grant o £20,125 tuag at atgyweirio adeiledd hanesyddol yr adeilad.

**Fferm Heol Ddu, Foelgastell, Cefneithin**
Mae Heol Ddu yn cynnwys grŵp o adeiladau fferm hynod, gyda dau dŷ annedd, stabl, tŷ gwair a beudy i gyd â cherrig yn dyddio o'r 18fed ganrif. Roedd y cais ar gyfer yr ail dŷ, a drawsnewidiwyd ers tro i'w ddefnyddio fel adeilad allan ôl ac sydd bellach mewn cyflwr gwael. Grant o £36,000 ar gyfer atgyfnerthu ac adnewyddu tu allan yr adeilad yn gywir.

**Plasty Trewern, Hendy Gwyn ar Daf**
Plasty gwych o ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yw Trewern gyda thu mewn cyfoes a dyma'n wreiddiol oedd cartref y teulu Beynon. Cynnig grant o £5,320 ar gyfer gwaith i gael gwared â phydredd sych.

YCHWANEGIAD B

## Ceredigion

**Yr Ystafell Filiards yn Llanerchaeron, Ciliau Aeron**
Mae'r adeilad bach neoglasurol dymunol hwn yn rhan bwysig o grŵp Llanerchaeron. Cynnig grant o £12,760 ar gyfer adfer adeiledd hanesyddol yr adeilad.

**Troedrhiwfallen, Cribyn**
Bu'r tŷ brodorol gwerinol hwn, unwaith yn fath cyffredin o adeilad ond erbyn hyn caiff ei ystyried yn enghraifft brin. Cafodd ei adeiladu ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif neu ar ddechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan ddefnyddio carreg lanw gleiog gyda tho gwellt ar gyplau pengam sgarff ac mae'n parhau heb ei addasu. Grant o £17,600 ar gyfer gwaith adfer i gynnwys sefydlogi'r strwythur, adnewyddu'r simnai ac ail-doi'r to, adnewyddu distiau'r llawr, y ffenestri a'r drysau (gweler y ffotograffau ar dudalennau 38 a 39).

**Neuadd y Dref, Aberteifi**
Wedi ei hadeiladu yn 1858–69 gan R. J. Withers a'i lleoli mewn safle amlwg yng nghanol y dref, dyma'r adeilad dinesig cyntaf ym Mhrydain i gael ei adeiladu yn arddull Gothig Ruskin. Grant o £16,500 ar gyfer atgyweiriadau safon uchel gan gynnwys to llechi, ailbwyntio ac adnewyddu manylder y gwaith cerrig.

## Conwy

**Plas Muriau, Betws-y-Coed**
Yn dŷ Fictoraidd bach sydd wedi cael ei gadw'n arbennig o dda a'i leoli mewn gerddi cyfoes, canfuwyd yn ddiweddar fod Plas Muriau yn cynnwys nenfwd paentiedig hynod. Cynnig grant o £4,800 ar gyfer atgyweirio pen y simneiau a'r to.

CYNGOR ADEILADAU HANESYDDOL CYMRU

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Mihangel Sant, Stryd yr Eglwys, Abergele**
Mae hon yn eglwys ganoloesol wych sydd yn adeilad rhestredig Gradd II* fel eglwys sydd o bwys rhanbarthol gydag adeiledd canoloesol sydd wedi goroesi a chasgliad da o henebion. Daethpwyd o hyd i enghraifft brin o wydr canoloesol yn y festri. Grant o £67,500 ar gyfer atgyweirio'r to, nwyddau dŵr glaw a gwaith carreg.

**Eglwys Grwst Sant, Llanrwst**
Mae Eglwys Grwst Sant yn dyddio o ddiwedd y bymthegfed ganrif. Mae ganddi dŵr castellog gwych yn y Pen Gorllewinol a changell a chorff wedi eu gwahanu gan groglofft gerfiedig gain a sgrîn. Mae Capel hynod Gwydir yn cynnwys henebion adnabyddus Wynne o'r 17eg ganrif. Grant o £50,000 tuag at raglen o atgyweiriadau.

## Sir Ddinbych

**Eglwys Garmon Sant, Llanarmon yn Iâl**
Mae'r eglwys hon yn adeilad rhestredig Gradd II* canoloesol ei gwreiddiau ac yn nodedig am ei chyfuniad o fanylion cain o'r cyfnod canoloesol a'r cyfnod Sioraidd cynnar. Cynnig grant o £17,500 ar gyfer gwaith ailrendro'r talcen gorllewinol.

**Neuadd Bodrhyddan, Rhuddlan**
Mae Neuadd Bodrhyddan yn adeilad rhestredig Gradd I sy'n bwysig fel tŷ gwych o ddiwedd yr ail ganrif ar bymtheg ac fel enghraifft ardderchog o waith diweddar gan y pensaer W. E. Nesfield, a ail-luniodd yr adeilad yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Cynnig grant o £12,000 ar gyfer atgyweirio'r to ar ochr ogledd-ddwyreiniol y tŷ.

## YCHWANEGIAD B

**Hen Esgobty (Colomendy a Chyfrinfa), Ffordd Ddinbych Uchaf, Llanelwy**
Strwythur anarferol gyda tho pyramid yw'r gyfrinfa yn yr Hen Esgobty sy'n dyddio o ddechrau'r ddeunawfed ganrif. Gellir cael mynediad i'r blychau nythu yn y colomendy, sy'n cael ei ddefnyddio o hyd, drwy'r to talcen yn hytrach na'r trefniant llusern arferol. Cynnig grant o £16,000 ar gyfer to llechi newydd, ailbwyntio ac atgyweirio gwaith coed y ddau adeilad nodedig hyn.

## Sir y Fflint

**Eglwys Sant Eurgain a San Pedr, Llaneurgain**
Mae cysegriad cyntaf yr eglwys hon i Sant Eurgain, nith Sant Elwy, yn dyddio o ganol y chweched ganrif. Er bod yr adeilad presennol wedi cael ei ymestyn a'i ail-lunio dros y blynyddoedd, mae'n parhau i fod yn eglwys Unionsyth gain gyda nodweddion penodol megis y tŵr. Bellach, mae angen gwaith ar y to a chlymau'r canllaw, gwaith maen a'r allfeydd dŵr glaw er mwyn rhwystro mwy o ddŵr glaw rhag mynd i mewn iddi. Cynnig grant o £55,000 tuag at yr atgyweiriadau hyn.

**Yr Hen Fecws, Gelli Lyfdy, Babell**
Mae'r becws ar fferm Gelli Lyfdy yn enghraifft brin o annedd fach o'r ail ganrif ar bymtheg sydd wedi cadw llawer o'i gymeriad cynnar. Cynnig grant o £11,200 tuag at atgyweirio adeiledd hanesyddol yr adeilad.

YCHWANEGIAD B

## Gwynedd

**Clenennau, Dolbenmaen**
Mae Clenennau yn ffermdy hanesyddol bwysig o'r ail ganrif ar bymtheg gan y bu'n gartref i Syr John Owen, a oedd yn gadfridog Brenhinol yn ystod y Rhyfel Cartref yng ngogledd Cymru. O ran hanes diweddarach, mae sôn bod Syr Winston Churchill a David Lloyd George wedi cwrdd yma yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Grant o £16,544 ar gyfer gwaith ail-doi ac ailbwyntio.

**Capel Peniel, Tremadog, Porthmadog**
Mae'r capel hwn o ddechrau'r bedwaredd ganrif wedi ei adeiladu mewn dull mawreddog, gyda phileri bob ochr i'w wyneb a cholofnau Dorig Rhufeinig canolog o amgylch logia ac yn cynnal pediment â ffenestr flodeuog ganolog. Cynnig grant o £6,842 tuag at atgyweirio wyneb pwysig yr adeilad.

**Eglwys Celynnin Sant, Llangelynnin**
Mae'r eglwys sy'n dyddio o'r drydedd ganrif ar ddeg, gydag ychwanegiadau diweddarach ystyrlon, yn meddu ar gyfoeth o nodweddion cynnar ac yn cadw cymeriad cwbl gyn-Fictoraidd. Mae iddi leoliad dramatig a nodweddion mewnol cain. Grant o £40,000 ar gyfer gwaith adfer gan gynnwys ailbwyntio gwaith maen ac ail-doi.

**Plas Hen, Hen Gernywch, Brithdir**
Mae Plas Hen yn dŷ rhanbarthol is-ganoloesol pwysig gyda ffenestri dormer uchel ac ychwanegiadau ystyrlon gan y pensaer nodedig, Syr Clough Williams-Ellis. Cynnig grant o £22,000 ar gyfer rhoi llechi newydd ar lethrau gwreiddiol y to.

YCHWANEGIAD B

## Ynys Môn

**Cyn Fwthyn Ciper yng Ngoleudy Ynysoedd y Moelrhoniaid**
Mae'r bwthyn yn adeilad rhestredig Gradd II* fel y tŷ ciper cynharaf yng Nghymru sydd wedi goroesi, ac o bosibl yr annedd cyntaf o'r fath i gael ei adeiladu at y diben. Mae'n dyddio o tua 1720 — o'r cyfnod cyntaf o fyw ar yr ynys at ddibenion cynnal y golau. Mae'n hynod o beth bod llawer o adeiledd yr adeilad wedi goroesi. Grant o £36,000 ar gyfer y cam cyntaf mewn proses ddau-gam tuag at gadw, atgyweirio a gwarchod y bwthyn.

**Eglwys Gredifael Sant, Penmynydd, Llangefni**
Prin iawn yw'r gwaith adfer ar Eglwys Gredifael Sant sy'n eglwys ganoloesol yn y dull gwledig hudolus ac sydd â diddordeb hanesyddol lleol a chenedlaethol oherwydd ei chysylltiad â theulu'r Tuduriaid o Blas Penmynydd, sy'n perthyn yn agos iawn i'r llinach Tuduraidd brenhinol. Cynnig grant o £45,000 ar gyfer gwaith atgyweirio amrywiol, gan gynnwys ail-doi a phlastro ac atgyweirio ffenestri.

## Sir Fynwy

**Eglwys Priordy'r Santes Fair, Brynbuga**
Strwythur mawreddog o dywodfaen coch a thoeon llechi, ac mae'r ychwanegiadau a wnaed i'r eglwys ers iddi gael ei hadeiladu'n wreiddiol tua 1100 wedi creu cynllun anarferol. Mae'r tu mewn hefyd yr un mor drawiadol gyda dau gorff yr eglwys a nenfydau fowt faril o bren. Grant o £119,411 ar gyfer gwaith adfer cynhwysfawr i'r to a'r cerrig y tu allan.

**Tŷ Asch, Mamhilad**
Mae'r annedd hanesyddol hon a ganfuwyd yn ddiweddar yn dyddio o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg. Ychydig iawn o waith addasu a wnaed iddi ers ei hadeiladu, ac mae'n enghraifft glasurol o ddull brodorol Sir Fynwy. Grant o £50,000 ar gyfer gwaith atgyfnerthu ystyrlon ac ailadeiladu'r adeiledd hanesyddol.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Tysoi Sant, Lôn yr Eglwys, Llansoi**
Mae'n debyg bod gwreiddiau Celtaidd i'r eglwys blwyf hon sy'n adeilad rhestredig Gradd I ac mae'n cadw'r rhan fwyaf o'i gwneuthuriad o'r bymthegfed ganrif. Mae ei thu mewn i raddau helaeth yn gain gyda nenfydau baril panelog a bwa cangell cerrig wedi eu mowldio. Cynnig grant o £9,500 tuag at waith cerrig ac atgyweirio ffenestri.

**Eglwys Wynoro Sant, Llanwynoro**
Gwreiddiau canoloesol sydd i eglwys Wynoro Sant ac mae ganddi gysylltiadau hanesyddol pwysig â Llys Llanwynoro. Mae ganddi gyntedd Celf a Chrefft gwych hefyd a heneb bwysig o gyfnod y Dadeni. Cynnig grant o £17,000 ar gyfer gwaith atgyweirio cadwraethol cyffredinol.

**Eglwys Cadog Sant, Llangatwg Lingoed, Y Fenni**
Eglwys ganoloesol sydd wedi cael ei chadw'n dda a'i hadfer yn ofalus gan gadw ei thŵr gwych, ei rhwyllwaith a thoeon yn ogystal â chrogdraws canoloesol, seddau caeëdig o'r ail ganrif ar bymtheg a henebion o'r ail ganrif ar bymtheg a'r ddeunawfed ganrif. Grant o £101,138 tuag at ail gam gwaith atgyweirio mawr.

## Casnewydd

**Eglwys Basil Sant, Maesaleg**
Mae'n debyg i Eglwys Basil Sant gael ei hadeiladu yn y bymthegfed ganrif ond gwnaed gwaith adnewyddu sylweddol arni yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Wedi'i hadeiladu yn bennaf o dywodfaen llanw, roedd Capel Morgan yr eglwys yn feddrod i deulu'r Parc Tredegar cyfagos yn wreiddiol ond cafodd ei drawsnewid yn 1909 i gapel er cof am Frederick Courtenay Morgan. Grant o £15,000 ar gyfer atgyweirio to'r tŵr.

YCHWANEGIAD B

## Sir Benfro

**Eglwys Sant Iago, Maenorbŷr**
Mae'r ffaith bod Eglwys Sant Iago yn adeilad rhestredig Gradd I yn adlewyrchu ei bwysigrwydd fel un o'r eglwysi canoloesol mwyaf diddorol yn ne-orllewin Cymru. Mae'r eglwys yn cadw cyfres ddiddorol iawn o fowtiau cerrig a dodrefn, sydd yn eithaf canoloesol eu ffurf. Cynnig grant o £71,190 tuag at raglen gynyddol o waith cadwraeth.

## Powys

**Eglwys y Santes Fair, Llanywern, Aberhonddu**
Mae Eglwys y Santes Fair yn enghraifft brin o eglwys ganoloesol a oroesodd rhaglen adnewyddu eglwysi oes Fictoria yn weddol ddianaf. Grant o £25,000 ar gyfer gwaith i atgyweirio'r adeiledd hanesyddol.

**Eglwys Aelhaiarn Sant, Cegidfa, Y Trallwng**
Mae Eglwys Aelhaiarn Sant yn dyddio o'r ddeuddegfed ganrif gyda sawl ychwanegiad diweddarach, gan gynnwys gwaith adfer ystyrlon gan G. E. Street yn 1877–9. Mae'r eglwys wedi cadw llawer o'r adeiledd canoloesol yn ogystal â bod yn gartref i gasgliad gwych o henebion muriau o'r ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Grant o £1,840 tuag at gynllun o atgyweiriadau i waith maen.

**Eglwys Cynog Sant, Bochrwyd, Y Clas ar Wy**
Yn enghraifft ardderchog o eglwys bentref Fictoraidd, mae'r tu mewn i eglwys Cynog Sant yn meddu ar gymeriad a bwa cangell cain manwl. Cynnig grant o £55,000 ar gyfer gwaith adleoli i'r meindwr a'r gwaith cerrig ac atgyweirio'r to.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Cynog Sant, Merthyr Cynog, Aberhonddu**
Mae hon yn eglwys fawreddog sydd i'w gweld am filltiroedd dros y bryniau tonnog, lle y claddwyd Cynog Sant yn y chweched ganrif, yn ôl y sôn, ac a sefydlodd dreflan ar y safle cyn 500 AD. Eglwys Normanaidd yw'r eglwys bresennol gyda thŵr sgwâr cadarn. Cynigir grant ar gyfer y tŵr lle mae'r mur gorllewinol (a gafodd ei ailadeiladu yn 1860) yn syrthio oddi wrth weddill y strwythur. Cynnig grant o £33,000 tuag at waith sydd i gynnwys rhwystro'r symudiad tuag allan, ailbwyntio'r muriau mewn morter calch a rhoi llechi newydd ar do'r tŵr.

**Castell Powys, Y Trallwng**
Mae Castell Powys yn adeilad rhestredig Gradd I sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Mae'r castell gwreiddiol yn dyddio o tua 1170 pan oedd yn gadarnle Cymreig a oedd yn eiddo o bosibl i Owain Cyfeiliog a'i ddisgynyddion. Wedi iddo gael ei addasu dros y blynyddoedd, fe ddaeth i ddwylo Syr Edward Herbert yn 1587 a greodd y syniad o dŷ gwledig. Mae Castell Powys yn parhau i fod yn heneb nodedig sy'n nodi datblygiad yr adeilad o fod yn gaer ganoloesol i fod yn gartref domestig. Mae strwythur canoloesol y tu allan sydd wedi goroesi yn ffurfio'r fframwaith ar gyfer cyfres hynod o enghreifftiau mewnol dilynol, gan gynnwys y dulliau Baróc o ddiwedd yr unfed ganrif ar bymtheg a diwedd yr ail ganrif ar bymtheg sydd o bwysigrwydd eithriadol. Cynnig grant o £7,000 ar gyfer gwaith atgyweirio'r llawr marmor ystumiedig yn y cyntedd.

**Eglwys Cyniew Sant, Llangyniew, Y Trallwng**
Eglwys fach ganoloesol sy'n adeilad rhestredig Gradd II* yw Eglwys Cyniew Sant, sydd wedi llwyddo i osgoi gwaith moderneiddio Fictoraidd sylweddol gan gadw llawer o'i nodweddion gwreiddiol. Cynnig grant o £27,500 tuag at waith atgyweirio y tu allan a thrin pla o chwilod.

**Eglwys Sant Teilo a'r Santes Fair, Meifod**
Eglwys ganoloesol sy'n adeilad rhestredig Gradd I yw hon sy'n bwysig iawn yn yr ardal o ran nodweddion pensaernïol a hanesyddol. Cynnig grant o £47,500 ar gyfer gwaith atgyweirio gan gynnwys ail-doi, gwaith atgyweirio y tu mewn a thrin chwilod angau.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Bilo Sant, Llanbilo, Aberhonddu**
Yn eglwys Normanaidd yn wreiddiol gydag addasiadau ac ychwanegiadau diweddar, mae eglwys Bilo Sant wedi cadw ei nodweddion diddorol megis y drws Normanaidd bloc gyda chapan drws cerfiedig addurniadol o tua 1100, seddau a phulpud o'r ail ganrif ar bymtheg a chroglen a llofft gydag chrogris sydd wedi goroesi. Grant o £67,110 ar gyfer gwaith i gynnal yr adeilad ac atgyweirio muriau allanol a mewnol.

## Rhondda Cynon Taf

**Capel Bethlehem, Stryd Fawr, Treorci**
Wedi ei adeiladu yn 1881 i gynllun clasurol trawiadol ac ystyrlon, nodwyd Capel Bethlehem fel un o'r gorau o'i fath yng Nghymru yng Nghyhoeddiad Amgueddfa Genedlaethol Cymru, *Capeli Cymru* (1984). Cynnig grant o £17,500 ar gyfer fframiau ffenestri newydd i edrych yn union fel y rhai gwreiddiol.

## Wrecsam

**Neuadd Erddig, Marchwil**
Mae Neuadd Erddig yn dŷ gwledig pwysig ac yn adeilad rhestredig Gradd I sy'n dyddio'n wreiddiol o ddiwedd yr 17eg ganrif gyda chyfnodau o ychwanegiadau o ddechrau ac o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, gan gynnwys cynlluniau mewnol sydd wedi cael eu cadw'n dda. Mae wedi ei leoli o fewn gardd ffurfiol o ddechrau'r ddeunawfed ganrif sydd wedi cael ei chadw'n dda a pharc tirluniol o ddiwedd y ddeunawfed ganrif, sydd i gyd bellach yng ngofal yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Cynnig grant o £16,000 ar gyfer atgyweirio'r grisiau ysgubol gwych a'r teras i'r gorllewin o flaen y tŷ.

## YCHWANEGIAD B

**Eglwys Sant Marcella, Marchwil**
Ailadeiladwyd yr hen eglwys yn 1774 fel strwythur hirsgwar cywasgedig mewn gwaith carreg nadd cain. Mae ganddi dŵr gorllewinol tri cham a chasgliad o henebion Sioraidd gwych. Cynnig grant o £8,750 ar gyfer atgyweiriadau i'r ffenestri gwydr lliw.

**Eglwys Sant Chad, Holt**
Mae'r eglwys yn adeilad rhestredig Gradd I ac yn enghraifft ragorol o eglwys blwyf Unionsyth ganoloesol. Cynnig grant o £41,000 tuag at y pumed cam mewn rhaglen hir dymor o atgyweirio gwaith cerrig. Bydd y cam hwn yn cwmpasu ffenestri'r eiliau deheuol a gogleddol a'r gwaith cerrig mewnol ac allanol.



Y dde: *Troedrhiwfallen cyn i'r gwaith atgyweirio ddechrau (Tim Jones).*



Y dde: *Gwaith yn mynd rhagddo (Greg Stevenson).*

## YCHWANEGIAD C

# Grantiau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth

**Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990, Adran 77**

**Grantiau a gynigiwyd 1 Ebrill 2002–31 Mawrth 2003**

Cynigiwyd grantiau tuag at gostau cynlluniau sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i warchod neu wella ardaloedd cadwraeth.

Ochrau allanol yr adeiladau hyn yw eu nodweddion pwysicaf a gellir eu gweld o'r stryd.

| *Ardal Gadwraeth* | *Adeilad* | *Grant £* |
|---|---|---|
| **PEN-Y-BONT AR OGWR** | | |
| Merthyr Mawr | Tŷ'r Ysgol | 6,900 |
| Y Drenewydd yn Notais | Bwthyn Pwll y Dre, Ffordd Y Drenewydd yn Notais | 3,900 |
| **CAERDYDD** | | |
| Butetown | 36 West Bute Street | 2,750 |
| Ffordd yr Eglwys Gadeiriol | Eglwys Gatholig St Mary of the Angels | 76,000 |
| **SIR GAERFYRDDIN** | | |
| Talacharn | Sied Ysgrifennu Dylan Thomas | 5,643 |
| **CEREDIGION** | | |
| Llanbedr Pont Steffan | Gwesty'r Royal Oak, Stryd Fawr | 9,314 |
| Llanrhystud | Eglwys St Restitutis | 73,200 |
| **CONWY** | | |
| Abergele | Eglwys Mihangel Sant (Porth y Fynwent) | 4,000 |





Y dde: *Gwaith yn mynd rhagddo (Greg Stevenson).*

Chwith: *Mae'r to gwellt newydd bellach wedi'i osod (Greg Stevenson).*

## YCHWANEGIAD C

### SIR DDINBYCH

| | | |
|---|---|---|
| Bodfari | Eglwys San Steffan | 20,000 |
| Henllan | Eglwys San Sadwrn | 10,000 |
| Rhuddlan | Gwindy Fawr | * |
| Rhuthun | Elusendai, Llwybrau'r Eglwys | * |
| Rhuthun | South Prior House | 18,000 |

### SIR Y FFLINT

| | | |
|---|---|---|
| Yr Wyddgrug | Yr Hen Lysty | 6,250 |
| Trelawnyd | Eglwys Sant Mihangel | 6,400 |

### GWYNEDD

| | | |
|---|---|---|
| Caernarfon | Tŷ Rhydalun, 2 Stryd Bangor | 5,000 |
| Caernarfon | 4 Stryd Bangor | 6,250 |
| Harlech | London House, Harlech Isaf | 7,500 |

### MERTHYR TUDFUL

| | | |
|---|---|---|
| Trethomas | 32 Upper Thomas Street | * |

### SIR FYNWY

| | | |
|---|---|---|
| Gorfynwy | 9–13 St Thomas Square | 3,000 |

### CASTELL-NEDD PORT TALBOT

| | | |
|---|---|---|
| Castell-nedd | Neuadd y Dref | 20,000 |
| Castell-nedd | Eglwys Dewi Sant | 40,000 |

### CASNEWYDD

| | | |
|---|---|---|
| Canol y Dref Casnewydd | Y Farchnad Dan Do, Stryd Fawr | 37,500 |

### SIR BENFRO

| | | |
|---|---|---|
| Maenorbŷr | Adfeilion yn Church Hill Cottage | 4,500 |
| Penfro | 36 Prif Stryd | 12,000 |
| Penfro | Muriau'r Dref y tu ôl i 111 Commons Road | * |
| Dinbych-y-Pysgod | Eglwys Betws y Grog a Teilo Sant | 31,200 |

## YCHWANEGIAD C

### POWYS

| | | |
|---|---|---|
| Aberhonddu | Friar's Yard, Steeple Lane | 28,549 |
| Cemaes | Capel Cemaes | 17,000 |
| Clyro | Tŷ Ashbrook | 2,500 |
| Cegidfa | Eglwys Sant Aelhaiarn (wal derfyn) | 4,240 |
| Y Gelli Gandryll | Old Black Lion Inn, Lion Street | 9,500 |
| Trefaldwyn | Amgueddfa'r Old Bell, 3 & 5 Stryd Arthur | 1,950 |

### ABERTAWE

| | | |
|---|---|---|
| Llwchwr | Y Seintwar, Stryd y Castell | * |
| Pentref Oxwich | The Nook | 4,084 |

### TOR-FAEN

| | | |
|---|---|---|
| Blaenafon | Eglwys Fethodistaidd Stryd y Parc | 14,000 |

* Cynlluniau y mae'r Cyngor wedi argymell rhoi grant iddynt ond yn dibynnu ar amodau, megis cytuno ar gynllun addas o atgyweiriadau, cyn penderfynu ar lefel y grant.



Chwith: *Sied ysgrifennu Dylan Thomas, Talacharn, Sir Gaerfyrddin.*

YCHWANEGIAD CH

# Rôl a Chyfeiriad y Cyngor Adeiladau Hanesyddol yn y Dyfodol

## Cefndir

Corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yw Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru ac a sefydlwyd o dan ddeddfwriaeth sylfaenol – Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953; ei rôl yw rhoi cyngor annibynnol i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar faterion sy'n ymwneud ag amgylchedd hanesyddol Cymru, ac yn arbennig, ar geisiadau am grant gan Cadw ar gyfer atgyweirio adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol neu ar gyfer gwaith a wnaiff gyfraniad pwysig tuag at warchod neu wella cymeriad neu olwg ardal gadwraeth.

## Aelodaeth

Mae'r Cyngor yn cynnwys aelodau sydd â gwybodaeth arbenigol am adeiladau sydd o bwysigrwydd hanesyddol a phensaernïol yng Nghymru. Mae'r Cadeirydd yn derbyn cyflog bach ond ni thelir y chwe aelod arall; penodir aelodau'r Cyngor gan Lywodraeth y Cynulliad. Mae'r Cadeirydd hefyd yn gwasanaethu ar Bwyllgor Ymgynghorol Cadw, sy'n cyfarfod bob chwarter i adolygu perfformiad cyffredinol Cadw.

## Adroddiadau

Mae'r ddeddfwriaeth yn mynnu bod y Cyngor Adeiladau Hanesyddol (CAH) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad, sydd wedyn yn cael ei gyhoeddi. Mae'r Cyngor hefyd wedi paratoi cynllun cyhoeddiadau, yn unol ag egwyddorion rhyddid gwybodaeth, a gymeradwywyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth.

## Rôl y Cyngor Adeiladau Hanesyddol

Nodir cylch gorchwyl y Cyngor yn atodiad A. Bydd CAH yn cyfarfod yn ffurfiol bum gwaith y flwyddyn, gan gynnal cyfarfodydd busnes ac ymweld ag eiddo ledled Cymru, y gofynnwyd am grant ar eu cyfer.

Cynhaliodd y Cyngor 225 o gyfarfodydd yn 2002–03. Yn ogystal, ymgynghorir ag aelodau yn ad hoc ar faterion polisi neu faterion sy'n achosi pryder; yn aml mae aelodau yn cynnal archwiliadau ad hoc o adeiladau gan gynnig cyngor pan na fydd yn ymarferol neu'n angenrheidiol i'r Cyngor cyfan ymweld â'r adeiladau.

## YCHWANEGIAD CH

Cynhaliwyd adolygiad o'r Cyngor yn ystod 2002 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Prif ffocws y Cyngor yw ystyried ceisiadau unigol am grantiau a bu'n llwyddiannus wrth sicrhau bod nifer fawr o adeiladau pwysig yn cael eu gwarchod ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol drwy atal dirywiad, dadfeilio neu hyd yn oed o ganlyniad i gael eu dymchwel. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi meini prawf i'w defnyddio wrth ystyried a yw adeilad o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol; adolygwyd y meini prawf hyn ym mis Tachwedd 2000 ac fe'u rhestrir yn atodiad B.

Mae'r cynllun grantiau adeiladau hanesyddol cyfredol wedi gweithio'n dda ers blynyddoedd lawer. Cyfeiriwyd grantiau yn benodol at waith atgyweirio'r adeiladwaith hanesyddol, heblaw pan fydd angen addasiadau neu waith adnewyddu ar gyfer adfer cynllun gwreiddiol. Ystyriwyd rhyw 200 o geisiadau unigol am grant gan y CAH yn ystod 2002–03, gyda'r canlyniad bod Cadw wedi cynnig 90 o grantiau mewn egwyddor gwerth bron i £2m. Hefyd bu'r Cyngor yn ystyried dyrannu arian i awdurdodau lleol ar gyfer atgyweirio adeiladau hanesyddol o dan gynlluniau cytûn trefi hanesyddol yr awdurdodau lleol a Cadw ac ar gyfer projectau o dan Fenter Treftadaeth Trefluniau Cronfa Treftadaeth y Loteri.

**Cyfeiriad yn y Dyfodol**
Cynhaliwyd adolygiad pum mlynedd o'r Cyngor gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ystod 2002 a ystyriodd rôl y Cyngor, pa mor werthfawr oedd ei waith a'i effeithiolrwydd. Argymhellodd yr adolygiad y dylai'r Cyngor barhau i fodoli gyda rhai awgrymiadau am ei nodau a'i ddatblygiad yn y dyfodol. Caiff adroddiad o'r adolygiad ei ystyried yn fanwl yn ystod 2003–04.

Mae Cadw a'r CAH yn ymwybodol bod angen adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi grantiau yn gyson er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu anghenion amgylchedd hanesyddol Cymru yn awr ac yn y dyfodol a bod adnoddau'n cael eu targedu lle y mae eu hangen fwyaf.

O ran yr adeiladau sy'n derbyn cymorth mae'r pwyslais wedi symud dros y blynyddoedd oddi wrth dai mawr i gynnwys ystod eang o adeiladau a strwythurau

## YCHWANEGIAD CH

hanesyddol eraill, megis eglwysi a chapeli sy'n cael eu defnyddio, eglwysi cadeiriol, adeiladau brodorol, nodweddion adeiledig mewn gerddi hanesyddol ac, yn arbennig, grantiau ar gyfer gwaith brys i adeiladau sydd mewn perygl o gael eu colli. Hefyd rhoddwyd sylw cynyddol yn genedlaethol i ffiniau ehangach treftadaeth ac i gydnabod bod atgyweirio ac ailddefnyddio adeiladau yn ei hanfod yn ddefnydd cynaliadwy o adnoddau sy'n ychwanegu at ansawdd yr amgylchedd lleol.

O gofio bod yr amgylchiadau yn newid, cydweithiodd y CAH â Cadw i ystyried systemau newydd ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, gan symud i ffwrdd o'r sefyllfa ymatebol, 'yn ôl y galw' tuag at gynllun mwy strwythuredig sydd â blaenoriaethau cliriach ac sy'n fwy tryloyw ac yn fwy atebol i ymgeiswyr.

Wrth ystyried ei rôl a'i amcanion cyffredinol, mae'r CAH yn fwyfwy ymwybodol o'r gwerth ychwanegol sydd i'r gwaith o warchod ein treftadaeth – o ran hyrwyddo datblygiad cynaliadwy a chyfrannu at y broses o adfywio cymdeithas, economi ac estheteg lleol. Wrth wneud hyn, mae'r CAH yn ymwybodol na ddylai edrych ar ei waith mewn gwacter eithr y dylai annog Cadw ac asiantaethau eraill i gydweithio.

Mae'r CAH yn croesawu ymagwedd bartneriaeth y Fenter Treftadaeth Trefluniau sy'n dod ag asiantaethau megis Cronfa Treftadaeth y Loteri, awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a Cadw ynghyd mewn cynlluniau adfywio drwy warchod adeiladau hanesyddol. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi dull Cadw o gyfrannu cymorth grant i gynlluniau atgyweirio grŵp tai awdurdodau lleol mewn ardaloedd cadwraeth i gwrdd â chostau atgyweirio adeiladau i safonau cadwraeth. Mae trefniadau newydd Cadw ar gyfer partneriaethau cynlluniau trefol yn dilyn yr ymagwedd hon.

Wrth wneud argymhellion sy'n galw am ddefnyddio arian cyhoeddus, bydd y CAH, ynghyd â Cadw, yn edrych am ddulliau o godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o adeiladau hanesyddol, ynghyd â mynediad iddynt, gan gynnwys mynediad i bobl anabl.

## YCHWANEGIAD CH

Fel corff annibynnol, bydd y CAH hefyd yn parhau i dynnu sylw at faterion pwysig a gwneud sylwadau arnynt, gan gynnwys adolygiad y Cynulliad o'r amgylchedd hanesyddol yng Nghymru, a gyhoeddwyd i ymgynghori arno ym mis Mawrth 2003. Bydd y Cyngor yn parhau i fabwysiadu barn annibynnol a bod yn rhagweithiol o ran ymdrin â materion allweddol.

**Amcanion Polisi ar gyfer 2003–04 a thu hwnt**

Bydd y CAH yn

- cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar geisiadau unigol am grantiau o fewn ei gylch gorchwyl a'i feini prawf cyhoeddedig;
- cyfrannu at y strategaeth ehangach o hyrwyddo gwarchod yr holl adeiladau sydd, yn ei farn ef, o ddiddordeb pensaernïol a/neu hanesyddol eithriadol a'r gwaith o wella ardaloedd cadwraeth;
- datblygu a chynnal golwg strategol eang ar amgylchedd hanesyddol Cymru, sy'n pennu lle i adeiladau o bob math ac sy'n cymryd i ystyriaeth amrywiaeth daearyddol a chymdeithasol;
- o fewn cyd-destun trefniadau Cadw ar gyfer rhoi grantiau i adeiladau hanesyddol, sicrhau bod ei argymhellion yn cael eu gwneud mewn modd teg ac agored, rhoi ystyriaeth lawn i egwyddorion tryloywder ac atebolrwydd a sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r adeiladau hynny sydd â'r angen mwyaf;
- sicrhau bod ei argymhellion yn cynrychioli'r 'gwerth gorau'; a gosod safonau ansawdd o ran gwarchod y dreftadaeth adeiledig;
- hyrwyddo partneriaeth gydag ystod o asiantaethau eraill i sicrhau cysondeb o ran ymagwedd a chydlyniad yn yr amgylchedd hanesyddol;
- hyrwyddo'r cyfraniad cadarnhaol a all ddod yn sgîl gwarchod adeiladau hanesyddol i strategaethau adfywio a chynaliadwyedd ehangach;
- hyrwyddo ymwybyddiaeth ac annog mwy o fynediad i'r cyhoedd i eiddo sy'n derbyn cymorth gan Cadw.

YCHWANEGIAD CH

## Atodiad A: Cylch Gorchwyl

1. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ran I o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 fel y'i diwygiwyd, Deddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac ar faterion cyffredinol eraill, sef:

i. rhoi grantiau a benthyciadau tuag at atgyweirio neu gynnal a chadw adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol neu eu cynnwys neu dir sy'n cyffinio â hwy ynghyd â'u gerddi neu diroedd eraill o ddiddordeb hanesyddol eithriadol;

ii. caffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol, trwy eu prynu, eu prydlesu neu fel arall, neu drwy eu derbyn yn rhodd; neu gynnwys y cyfryw adeiladau neu'r tiroedd sy'n cyffinio â hwy neu gynnwys adeiladau y mae'r Cynulliad yn warcheidwad arnynt o dan Ddeddf Henebion ac Ardaloedd Archeolegol 1979, neu gynnwys adeiladau a ymddiriedwyd i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a chynghori'r Cynulliad ar werthu unrhyw eiddo a gaffaelwyd neu a dderbyniwyd yn y modd hwnnw.

iii. rhoi grantiau i awdurdodau lleol tuag at gaffael adeiladau o dan Adran 47 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ac i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol tuag at gaffael adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol;

iv. rhestru adeiladau sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig ac arfer swyddogaethau eraill y Cynulliad mewn perthynas ag adeiladau o'r fath o dan Ddeddfau Cynllunio Gwlad a Thref.

2. Cynghori Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar arfer ei bwerau o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 fel y'i diwygiwyd i roi grantiau neu fenthyciadau tuag at gynlluniau sy'n gwneud cyfraniad pwysig tuag at warchod neu wella cymeriad neu olwg ardaloedd cadwraeth a rhoi grantiau tuag at atgyweirio adeiladau a gynhwysir mewn cynllun trefol ac sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol.

## YCHWANEGIAD CH

3. Rhoi cyngor i'r Swyddfa Trethi Cyfalaf a'r Trysorlys ar eithrio adeiladau o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol eithriadol, y tir sy'n cyffinio â hwy, a thir o ddiddordeb hanesyddol eithriadol o Dreth Trosglwyddo Cyfalaf.

4. Cyflwyno cynrychioliadau gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os ymddengys i'r Cyngor fod angen gweithredu ar unwaith o dan Ran I o Ddeddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953.

5. Arolygu'n gyson gyflwr cyffredinol adeiladau o ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol ledled Cymru a chyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad o dro i dro ar gyflwr y cyfryw adeiladau hyn ac ar y ffordd o ddod o hyd i ddefnyddiau newydd ar gyfer adeiladau hanesyddol, a gwneud awgrymiadau ynghylch defnyddiau posibl ar gyfer adeiladau penodol pan fydd y Cynulliad yn gofyn iddo.

## Atodiad B: Diffiniad o Adeiladau o Ddiddordeb Hanesyddol neu Bensaernïol Eithriadol

Mae Cyngor Adeiladau Hanesyddol Cymru yn ystyried rhinweddau adeiladau o bob math yng Nghymru. Mae Deddf Adeiladau Hanesyddol a Henebion 1953 yn darparu mai dim ond enghreifftiau y bernir eu bod o 'ddiddordeb hanesyddol neu bensaernïol eithriadol' sy'n gymwys ar gyfer derbyn cymorth grant. Mae asesu adeiladau bob amser yn fater o farn; gellir barnu gwahanol fathau o adeiladau — addoldai, tai, adeiladau diwydiannol, ac ati – mewn ffyrdd gwahanol. Nid oes unrhyw reolau cadarn y gellir eu defnyddio i fesur a yw cais yn gymwys ar gyfer derbyn grant ai peidio, ond yn ogystal â chyflwr yr adeilad, fel rheol cymerir i ystyriaeth y meini prawf canlynol (nad ydynt yn nhrefn pwysigrwydd):

## YCHWANEGIAD CH

### Diddordeb Hanesyddol

- cysylltiad cryf â digwyddiad hanesyddol o bwys;
- cysylltiad cryf â pherson pwysig mewn hanes;
- cysylltiad cryf â mudiad pwysig (e.e. crefyddol, gwleidyddol, cymdeithasol, diwylliannol, ac ati);
- cysylltiad cryf â chyflawniad diwylliannol neu ddiwydiannol pwysig.

### Diddordeb Pensaernïol

- ansawdd y bensaernïaeth (gall hyn ddeillio'n gymaint o ffurf syml adeilad brodorol ag o fanylion pensaernïol moethus addoldy neu faintioli mawreddog plasty);
- ei bwysigrwydd o fewn lleoliad o ansawdd arwyddocaol (tirlun, treflun, ac ati);
- ei bwysigrwydd fel enghraifft nodweddiadol o waith pensaer o bwys, neu fel cyfraniad o bwys i hanes pensaernïaeth;
- ei bwysigrwydd fel enghraifft glasurol o ddull penodol, mudiad neu fath o adeilad;
- ei bwysigrwydd fel enghraifft brin o fath penodol o adeilad, ffurf strwythurol benodol ar adeilad neu ddull hanesyddol penodol o adeiladu sydd wedi goroesi yn cynnwys adeiladau lleol, a fu gynt yn nodweddiadol, sydd erbyn hyn mewn perygl o ddiflannu;
- ei bwysigrwydd fel enghraifft o gyfraniad arloesol at dechnoleg adeiladu.